

Dyddiad: 13/05/2024

Gwarchodaeth rhag y frech goch

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe



Mae cymunedau sy'n byw yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn dal i gael eu hannog i sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag y frech goch wrth i benaethiaid Iechyd Cyhoeddus rybuddio eu bod yn credu bod yr achosion yng Ngwent yn lledaenu yn y gymuned, gyda naw achos wedi'u cadarnhau.

Mae Jennifer Davies, Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd y Cyhoedd ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe, wedi amlygu mewn cyfathrebiadau blaenorol bod "y brechlyn MMR yn frechlyn diogel ac mae dau dds yn darparu amddiffyniad rhagorol yn erbyn y frech goch. Mae angen i ni sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael eu brechu, yn enwedig plant."

Mae'r frech goch yn glefyd firaol heintus iawn ac mae'n lledaenu'n hawdd ymhlith y rhai sydd heb eu brechu, yn enwedig mewn meithrinfeydd ac ysgolion. Os nad ydych chi neu'ch plentyn wedi'ch brechu a'ch bod yn dod i gysylltiad â rhywun â'r frech goch, rydych yn debygol o ddal y clefyd, mynd yn sâl iawn, a chael eich cynghori i ynysu (o'r gwaith neu'r ysgol) am hyd at 21 diwrnod, er mwyn sicrhau nad ydych chi na'ch plentyn yn heintio eraill. Efallai y bydd athrawon, gweithwyr iechyd a gofal, gan gynnwys pob cyswllt, hefyd yn cael eu cynghori i ynysu os nad ydynt wedi'u brechu a dod i gysylltiad â rhywun â'r frech goch.

I wirio statws brechu eich plentyn gallwch gysylltu â Thîm Imiwneiddio BIP Bae Abertawe ar 01792 200492. Fel arall, gallwch wirio llyfr imiwneiddio coch eich plentyn neu gysylltu â'ch meddyg teulu. Bydd angen dau dds o MMR arnoch i'w diogelu'n llawn.

Dros yr hanner tymor nesaf mis Mai, bydd ein Tîm Imiwneiddio a Nyrsio Ysgolion yn ymweld â'n cymunedau lleol gan gynnig sesiynau dal i fyny brechiad MMR. Byddem yn croesawu ac yn eich annog i fynychu eich cynnig lleol, lle cewch gyfle i gael trafodaeth wybodus am y brechlyn MMR a/neu dderbyn y brechlyn os nad ydych chi neu'ch plentyn wedi'ch diogelu eto:

Imbiwlans (cerbyd brechu symudol) Amserlen Galw Heibio

Dydd	Dyddiad	Lleoliad	Amser	Brechlyn
Dydd Mawrth	28/05/2024	Parc Tawe - y tu allan i Ninja Warrior, SA1 2AL	9.30 - 1630	MMR
Dydd Mercher	29/05/2024	Maes Parcio Maes Hamdden, Ffordd y Mwmbwls, SA2 0AT.	9.30 - 1630	MMR
Dydd Iau	30/05/2024	Canolfan Gymunedol Cwmafan, SA12 9DF	9.30 - 1630	MMR
Dydd Gwener	31/05/2024	Sgwâr Angel Castell-nedd – ger Morrisons, SA11 1DH	9.30 – 16.30	MMR

Sesiynau Galw Heibio Cymunedol

Dydd	Dyddiad	Lleoliad	Amser	Brechlyn
Dydd Mawrth	28/05/2024	Neuadd Bentref Pontlliw, Ffordd Carmel, Abertawe SA4 9EX	9.30 – 16.30	MMR
Dydd Mercher	29/05/2024	Canolfan Gymunedol Manselton, Elgin Street, SA5 8QE	9.30 – 16.30	MMR
Dydd Mercher	29/05/2024	Heol Ysgol Pentrepoeth, Treforys, Abertawe, SA6 6HZ	9.30 – 16.30	MMR
Dydd Iau	30/05/2024	Canolfan Gymunedol Y Creunant, Ffordd y Coetir, Creunant SA10 8RF	9.45– 16.30	MMR

Gallwch ddarganfod mwy am y brechlyn MMR drwy ddilyn y ddolen hon i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru. - <https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/y-frech-goch-clwyr-pennau-a-rwbela-mmr/>

Yn gywir

Rheolwr Gwasanaethau Cleifion,

Mae hwn yn llythyr gwybodaeth safonol, nad oes angen llofnod arno.